# イルザ　平和と親善のメッセージ 2019

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2019

Urdd



## 声

私達には傷つけられない権利があり、誰かを気にかけて誰かを保護する権利もある
私達には意見を言う権利もあれば、聞いてもらう権利もある
もし戦争があっても、私達には身の安全を保証される権利と戦わない選択ができる権利がある

私達には声を張り上げる力があるし、それを聞いてもらう権利がある
聞こえていますか？
実行してくれていますか？

私達の武器は私達の声です
聞いてもらうために張り上げることのできる武器
主張するための武器
提案するための武器
誰かを元気づけるための武器
芸術を通して自己を表現するための武器
暴力に対処するために必要な武器
苦しんでいる人々を支えるための武器
世界中の子供達や若者達に、希望と平和、親善のメッセージを届けるための武器

戦争のせいで苦しんでいるイエメンの子供達や若者達へ
あなたの声は聞こえています
ナイフで攻撃されるのを恐れて生きるロンドンの子供達や若者達へ
あなたは独りではありません
学校で銃に撃たれる心配をしなくていい権利を主張しているアメリカの子供達や若者達へ
あなたの声は届いています
教育を受ける代わりに、戦争で戦うことを強制されている子供達や若者達へ
私達の武器である声を上げましょう

愛が愛を引き寄せるように、暴力は暴力を引き寄せ、笑い声は笑い声を引き寄せます

私達は未来です　歴史上で一番の若者世代です
あなた達の存在を忘れたことはありません
ウェールズの子供達と若者達は、世界中の子供達と若者達のそばにいます
暴力や戦争を無くすために、私達の声を聞いて行動を起こしてくれる様に、世界に向かって叫んでいます

声を張り上げて言いましょう
もうたくさんだと

私達の武器は私達の声です。世界中の子供達と若者達はみんな仲間です。一緒に声を上げましょう。

## Llais

Mae 'da ni'r hawl i beidio cael niwed, a'r hawl i ofal a diogelwch
Mae 'da ni'r hawl i roi ein barn ac i rywun wrando arnom ni
Os oes rhyfel, mae 'da ni'r hawl i fod yn ddiogel a pheidio
cael ein gorfodi i fod yn filwyr

Mae gyda ni'r pŵer i godi'n llais, a'r hawl i gael ein clywed
Oes rhywun yn gwrando? Oes rhywun yn gweithredu?

Ein HARF ni yw ein llais. Arf i weiddi'n uchel a cael ein clywed
Arf i brotestio. Arf i bleidleisio. Arf i gysuro eraill
Arf i fynegi ein hunain drwy gelfyddyd.
Arf i'n helpu ni ddelio gyda thrais
Arf i gefnogi pobl sy'n dioddef

Arf i estyn neges o obaith, neges o heddwch ac
ewyllys da i blant a phobl ifanc y byd
I blant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd rhyfel fel yn yr Yemen.
Rydyn ni'n gwrando
I blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ofn o ymosodiadau
gyda chyllyll fel yn Llundain.
Rydyn ni'n uno gyda chi
I blant a phobl ifanc sy'n sefyll dros eu hawl i addysg
heb yr ofn o gael eu saethu fel yn yr Unol Daleithiau.
Rydyn ni'n clywed
I blant a phobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ymladd mewn
rhyfeloedd yn lle cael addysg
Rydyn ni'n codi ein llais, ein harf ni

Mae trais yn annog trais, fel mae cariad yn annog cariad,
a chwerthin yn annog chwerthin

Ni yw'r dyfodol. Y genhedlaeth ifanc fwyaf mewn hanes.
Dy'n ni HEB anghofio
Mae plant a phobl ifanc Cymru yn sefyll gyda'n gilydd a gyda phlant
a phobl ifanc y byd. Yn galw ar y byd i wrando

ac i weithredu yn erbyn trais a rhyfel

Ac i ddweud. DIGON
Ein harf ni yw ein LLAIS, dewch gyda ni,
blant a phobl ifanc y byd a sefwch gyda ni.


urdd.cymru / heddwch@urdd.org


#heddwch2019 #peace2019


Urdd Gobaith Cymru @Urdd urddgobaithcymru